



Sut allwn ni fyw yn gynaliadwy?



Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn o bethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi. Byddaf yn parchu ac yn gwerthfawrogi natur.



Rwy'n deall y gall gweithredoedd dynol effeithio ar y byd naturiol. Byddaf yn cymryd camau cadarnhaol i helpu byd natur a phobl i ffynnu gyda'i gilydd.





Sut allwn ni fyw yn gynaliadwy?



**Yn hytrach na thaflu pethau i
ffwrdd, byddaf yn eu trwsio neu'n
eu hailddefnyddio.**



**Byddaf yn dewis prynu gan
gwmnïau ecogyfeillgar ac yn
annog eraill i wneud hynny hefyd.**





Sut allwn ni fyw yn gynaliadwy?



Yn lle prynu cynhyrchion plastig untro, byddaf yn arbed arian ac yn buddsoddi mewn cynhyrchion y gallir eu hailddefnyddio.



Os na allaf ailddefnyddio rhywbeth byddaf yn ei ailgylchu neu'n ei wrthod.





Sut allwn ni fyw yn gynaliadwy?



Byddaf yn chwilio am gynnyrch di-blastig ac yn dewis prynu pethau sydd wedi'u gwneud neu eu tyfu gan ddefnyddio dulliau ac adnoddau cynaliadwy.



Byddaf yn rhoi eitemau nad wyf yn eu defnyddio mwyach i siopau elusen er mwyn i eraill allu eu hailddefnyddio a gallaf brynu eitemau ail law.





Sut allwn ni fyw yn gynaliadwy?



Byddaf yn cymryd camau i atal gwastraff bwyd. Er enghraifft, byddaf yn helpu i gynllunio prydau bwyd yr wythnos fel ein bod ni ond yn prynu'r hyn sydd ei angen arnom ac yn rhoi gweddillion ffrwythau a llysiau mewn bin compost pan fo hynny'n bosibl.



Gallaf helpu i arbed adnoddau naturiol gwerthfawr. Er enghraifft, gallaf ddefnyddio llai o ddŵr.






Sut allwn ni fyw yn gynaliadwy?



Gallaf helpu i arbed adnoddau gwerthfawr trwy ddefnyddio llai o drydan. Er enghraifft, diffodd goleuadau a dyfeisiau nad ydynt yn cael eu defnyddio.



Gallaf gerdded yn lle teithio mewn car.





Sut allwn ni fyw yn gynaliadwy?



Byddaf yn annog eraill i brynu bwyd lleol a thymhorol a byddaf yn gwneud hynny fy hun pan fo'n bosibl.



Gallaf blannu coed i helpu i frwydro yn erbyn newid hinsawdd, atal erydiad pridd, a chynnal bywyd gwylt.





Sut allwn ni fyw yn gynaliadwy?



Byddaf yn annog eraill i chwilio am logo'r FSC (Forest Stewardship Council) a phrynu cynnyrch sydd wedi cael ei dyfu mewn coetiroedd a reolir yn gynaliadwy a byddaf yn gwneud hynny fy hun pan fo'n bosibl.



Gallaf weithredu, codi ymwybyddiaeth ac ymgyrchu dros gynaliadwyedd.





Sut allwn ni fyw yn gynaliadwy?



Gallaf dyfu fy mwyd fy hun.



Dysgu yn yr amgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.

Chwilio am fwy o adnoddau dysgu, gwybodaeth a data?

Ewch i: cyfoethnaturiol.cymru/dysgu

Fformat gwahanol: print bras neu iaith arall, cysylltwch â:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk, 0300 065 3000

